

CA2 - Cynllun o Wers - Helfa Sborion

Amcan

Cael hyd i nifer o wrthrychau mewn ardal.

Nodau

Profi sgiliau arsylwi

Canfod amrywiaeth o weadau a lliwiau

Deall yr amrywiaeth o eitemau a geir mewn ardal fechan

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Celf a Dylunio 1. Edrych ar syniadau a'u datblygu

Cymraeg / Saesneg EN1 Siarad a Gwrando

ESDGC. Yr Amgylchedd Naturiol

Gweithgaredd Rhagbrofol

Trafodwch rai o'r pethau yn yr amgylchedd naturiol a sut maent yn teimlo ac yn edrych. Er enghraifft, edrychwch ar ddeilen gelyn a pha mor bigog ydyw. Pam mae mor bigog? Pa liw a siâp yw'r cerrig a'r gro mân? Pam maent yn amrywio cymaint?

Prif Weithgaredd

Gall y plant weithio naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn grwpiau bychain a chan ddefnyddio'r daflen helfa sborion, maent yn mynd allan ac yn rhoi cynnig ar bopeth ar y ddalen. Dylid eu hannog i ddefnyddio eu synnwyr cyffredin o ran beth ddylent ddod yn ôl gyda hwy a beth ddylent ei adael yn ei le. Cofiwch eu hatgoffa i beidio â hel y blodau ac awgrymwch y dylent dynnu eu lluniau yn lle eu hel.

Gweithgaredd dilynol

Defnyddiwch un o'r gwrthrychau o'u blaen. Mae'n rhaid i'r plant lunio stori, cân, cerdd, sgwrs neu ddrama fechan am eu gwrthrych. Gellir seilio hyn ar ffaith neu ffuglen.